# Cefndir i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

## Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Awdurdod Cymwys ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yng Nghymru. Rydym yn gyfrifol am arwain ar a chyhoeddi'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (RBMP) ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy (RBD) - drwy weithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol (gan gynnwys cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol ym maes yr amgylchedd, busnes a diwydiant). Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain o safbwynt cyhoeddi RBMP Hafren. Byddwn yn parhau i weithio â chyswllt agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'n partneriaid ar agweddau trawsffiniol Ardal Basn Afon Hafren ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

Ym mhob Ardal Basn Afon, mae gennym Banel Cyswllt sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif sectorau. Mae hyn yn darparu fforwm agored fel bod cyd-gyflenwyr yn gallu trafod a dylanwadu ar ddatblygiad yr RBMP a chynorthwyo i'w gweithredu. Bydd RBMP yn cael eu paratoi a'u diweddaru bob chwe blynedd. Mae'r cynlluniau diweddaredig yn cael eu cyhoeddi nawr.

### Amcanion

Ein bwriad yw mabwysiadu dull cyfannol o reoli'r amgylchedd dŵr a sicrhau ein bod yn cydbwyso gwerthoedd ecolegol, cymdeithasol ac economaidd wrth wneud penderfyniadau er mwyn:

- diogelu'r amgylchfyd dŵr rhag dirywio
- cyflawni amcanion ehangach Cyfarwyddebau Ewropeaidd eraill
- amcanu at sicrhau statws cyffredinol da ar gyfer dŵr wyneb a dŵr daear

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn pennu targed ar gyfer pob math o ddŵr – Statws Cyffredinol Da (e.e. pryfed, planhigion, bywyd pysgod, cemeg) sy'n dynodi ecosystem iach a chadarn. Lle na ellir sicrhau hyn, rhaid i ni roi rheswm pam.

Mae gennym Gyrff penodedig ar gyfer Dŵr sydd wedi'i Addasu'n Drwm lle mae cymdeithas wedi newid siâp, ffurf a nodweddion yr amgylchedd dŵr yn sylweddol. Er enghraifft, rydym wedi creu cronfeydd dŵr i storio dŵr yfed, rydym wedi atgyfnerthu a chodi glannau er mwyn amddiffyn cartrefi rhag llifogydd ac wedi carthu sianeli fel bod modd hwylio arnynt. Y nod i anelu ato yn y rhain yw Potensial Ecolegol Da. Rydym yn asesu'r newidiadau a'r gweithgareddau hyn er mwyn gweld a oes camau wedi eu cymryd i leihau eu heffeithiau ar yr ecoleg.

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn pennu amcanion ar gyfer cyrff dŵr ac yn crynhoi'r mesurau y bydd rhanddeiliaid yn eu cyflenwi er mwyn sicrhau'r canlyniadau hyn mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr. Mae'r camau gweithredu yn amrywio o fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig trefol a gwledig, adfer cynefinoedd a lliniaru newidiadau ffisegol (e.e. symud coredau diangen), adfer cloddfeydd metel, effeithlonrwydd dŵr a mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol anfrodorol.

Yn 2009, enillodd 32% o gyrff dŵr Cymru statws "da" neu well, fel sy'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb. Yn 2015, mae hyn wedi gwella i 39%.

### Y Drysorfa Dystiolaeth

Mae gwerthuso costau a manteision amgylcheddol yn faes sy'n ymffurfio ac yn datblygu. Mae gwybod bod y manteision yn debygol o gyfiawnhau'r costau o weithredu ymyriad yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithiol. Er mwyn datblygu rhaglen wedi'i

chostio cynhaliwyd Dadansoddiad Manteision Cost (CBA) yn seiliedig ar ragolygon o ba elw, o ran gwerth cyhoeddus, y gellid ei ddisgwyl o fuddsoddiadau mewn cyrff dŵr yng Nghymru.

Datblygwyd pedair senario ar gyfer yr ymgynghoriad er mwyn cynorthwyo i esbonio a disgrifio'r canlyniadau y gellir eu cyflawni erbyn 2021; y costau a'r manteision cyffredinol; dosraniadau'r costau ar draws y mathau o ymyriadau a chost-effeithiolrwydd cymharol.

Ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd 2015, rydym wedi cynllunio ar sail ein dealltwriaeth bresennol o adnoddau sydd eisoes yn bod.  Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi asesu costau a manteision gostyngedig ar gyfer mesurau arfaethedig Cyfoeth Naturiol Cymru i wella cyrff dŵr o statws tila, gwael, a chymedrol erbyn 2021, er mwyn cyfarwyddo gwneud penderfyniadau:

- cyfrifwyd gwerthoedd disgwyliedig yn seiliedig ar y risg y gallai cam gweithredu fethu cyflawni'r amcanion. Er enghraifft, yn achos cynlluniau ffermio sy'n sensitif i ddalgylch ni fydd pob tirfeddiannwr a dargedir yn mabwysiadu'r camau gweithredu sy'n cael eu hargymell. Defnyddiwyd barn arbenigol ar lefel leol i bennu'r risg o fethu (o gyrraedd 'da') yn achos pob swp o fesurau.
- yn achos pob corff dŵr, cafodd y risg y gallai swp o fesurau fethu eu graddio naill ai fel uchel, cymedrol neu isel mewn perthynas â'r ffactor risg, e.e. cyfranogaeth y tirfeddiannwr = risg gymedrol o fethu.
- rydym wedi cynnwys ffactorau ar gyfer amser staff a hyd mewnbwn Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Llinell Amser ac Ymgysylltiad

Mae Cyfarwyddiaeth yr UE a Chanllawiau'r Llywodraeth yn amlinellu'r prif gamau ar gyfer datblygu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

| Amserlen ar gyfer prif gynhyrchion rheoli basn afon | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad Cyflenwi** | **Cynnyrch** | **Ymgynghoriad?** |
| | | |
| Mawrth 2016 | Cyflwyno RBMP y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd | Na |


Daeth yr ymgynghoriad 6 mis ar y gwaith diweddaru arfaethedig i'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd i ben ar 10 Ebrill 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn gam pwysig yn y dasg o ffurfio datblygiad y cynlluniau diweddaredig a rhoddodd gyfle i'r rhanddeiliaid a'n partneriaid cyflenwi allu dylanwadu ar y dull gweithredu. Derbyniasom 101 o ymatebion oddi wrth ystod eang o grwpiau a sefydliadau a gellir gweld crynodeb o'r ymatebion ar ein gwefan.
https://naturalresources.wales/about-us/consultations/our-own-consultations-closed/?lang=cy

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Basn Afon Gorllewin Cymru yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.
https://naturalresources.wales/water/quality/?lang=cy

Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain ar Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren ac mae wedi ei gyhoeddi ar https://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015.

## Camau Nesaf

Byddwn yn symud i'r cam cyflenwi ar gyfer yr ail gylchred Cynllunio Rheoli Basnau Afonydd. Bydd hyn yn golygu datblygu'n gydweithredol gynllun cyflenwi gyda'n partneriaid, rhannu'r data a chyfrannu at sut y bydd y cynlluniau'n cyd-fynd â'r Datganiadau Ardal dan Fil arfaethedig yr Amgylchedd (Cymru).




**River Basin District - Wales**